

At: Aelodau'r Pwyllgor Archwilio
Cymunedau

Dyddiad: 9 Mawrth, 2015

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU, DYDD IAU, 12 MAWRTH 2015 am 9.30 am yn YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd 29 Ionawr 2015 (copi ynghlwm).

5 CATEGORIÄU IAITH HOLL YSGOLION SIR DDINBYCH (Tudalennau 15 - 40)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Addysg (copi ynghlwm) sy'n gofyn i'r Pwyllgor ystyried canfyddiadau arolwg Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg o gategoriâu iaith ysgolion y sir.

9.35 a.m. tan 10.10 a.m.

6 ASESIAD O AMDDIFFYNFEYDD ARFORDIROL Y RHYL (Tudalennau 41 - 74)

Ystyried adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a'r Uwch Beiriannydd (copi ynghlwm) sy'n cyflwyno adroddiad drafft ar yr Aseiad o Amddiffynfeydd Arfordirol y Rhyl, a gomisiynwyd gan y Cyngor ar ôl llyfogydd arfordirol fis Rhagfyr 2013.

10.10 a.m. tan 10.45 a.m.

Egwyl Gysur

7 CAEL GWARED AR ARWYDDION HEB EU HAWDURDODI ODDI AR DIR PRIFFYRDD (Tudalennau 75 - 96)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (copi ynghlwm) ar safbwynt polisi'r Cyngor mewn perthynas â symud arwyddion heb eu hawdurdodi o dir priffyrdd, a sut y mae'r polisi yn cael ei weithredu.

10.55 a.m. tan 11.30 a.m.

8 AILSTRWYTHURO'R GWASANAETH DATBLYGU ECONOMAIDD A BUSNES (Tudalennau 97 - 106)

Ystyried adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (copi ynghlwm) sy'n nodi cyd-destun ac amcanion yr adolygiad o swyddogaeth Datblygu Economaidd a Busnes y Cyngor.

11.30 a.m. tan 12.05 p.m.

9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL ARCHWILIO (Tudalennau 107 - 130)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi diweddariad i'r aelodau ar faterion perthnasol.

12.05 p.m. – 12.20 p.m.

10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Derbyn unrhyw ddiweddariad gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar amrywiol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

12.20 p.m. – 12.30 p.m.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts
(Cadeirydd)

Y Cynghorydd Win Mullen-James (Is-
Gadeirydd)

James Davies
Peter Arnold Evans
Carys Guy
Rhys Hughes

Bob Murray
Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams

Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Rhifau Eitemau Agenda 5 yn unig)

Gill Greenland
Debra Houghton

Dr. D. Marjoram
Gareth Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

Llofnod

Dyddiad

Code of Conduct for Members

DISCLOSURE AND REGISTRATION OF INTERESTS

I, *(name)*

a *member/co-opted member of

*(*please delete as appropriate)*

Denbighshire County Council

CONFIRM that I have declared a ***personal / personal and prejudicial** interest not previously declared in accordance with the provisions of Part III of the Council's Code of Conduct for Members, in respect of the following:-

*(*please delete as appropriate)*

Date of Disclosure:

Committee *(please specify)*:

Agenda Item No.

Subject Matter:

Nature of Interest:

Signed

Date

PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1A, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 29 Ionawr 2015 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Rhys Hughes, Win Mullen-James (Is-gadeirydd), Joe Welch a Cefyn Williams

Arsylwyr – Cynghorwyr Ray Bartley, Stuart Davies a Gwyneth Kensler.

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth Gwasanaethau Prifffyrdd a'r Amgylchedd (SP), Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd (MJ), Rheolwr Gwastraff a Chludiant (JE), Cydlynnydd Archwilio (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ).

PWYNT O WYBODAETH

Agorwyd y cyfarfod a'i ohirio tan 10.05am ar ôl cyrraedd cworwm.

1 YMDDIHEURIADAU

Cynghorwyr James Davies, Carys Guy a Bob Murray ynghyd â'r Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts gysylltiad personol yn Eitem 5 ar yr Agenda – Darganfyddiadau'r Adolygiad Traffig a Pharcio, gan fod ganddo siop yn Rhuthun.

3 MATERION BRYG FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw faterion bryg.

4 COFNDION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2014.

Materion yn Codi - Tudalen 7, Eitem 3 Materion Bryg: Cadarnhaodd y Cynghorydd Rhys Hughes fod y Rheolwr Datblygu (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) wedi cysylltu ag ef yn sgîl pryderon a godwyd yn y cyfarfod diwethaf ynghylch y diffyg ymgynghori dros fater cynllunio sy'n ymwneud â 'Llyn Glas' mewn chwarel ar Fwlch yr Oernant. Gan fod y dystysgrif cynllunio eisoes wedi'i gyhoeddi nid oedd unrhyw atebolrwydd. Er mwyn atal sefyllfa debyg rhag codi yn y dyfodol dyma aelodau yn

gofyn am sicrwydd y byddent yn ymgynghori'n llawn ag aelodau lleol ac aelodau cyfagos (yn ogystal â chynghorau tref / dinas / cymuned gyfagos) ar gynigion/ceisiadau o'r fath a fyddai'n cael goblygiadau pellgyrhaeddol ar raddau pellach ar gyfer cymunedau eu hunain a chymunedau cyfagos. Cytunwyd bod y Cydlynnydd Archwilio yn codi'r mater yn uniongyrchol â'r Swyddogion Cynllunio ac yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor ar hynny.

PENDERFYNWYD bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2014 yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

5 CANFYDDIADAU'R ADOLYGIAD TRAFFIG A PHARCIO

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Phriffyrdd adroddiad (a ddisbarthwyd yn flaenorol) yn manylu ar yr adolygiad Traffig a Pharcio, ac argymhellwyd fod camau gweithredu yn cael eu cynnig o ganlyniad i hynny. Mae'r adolygiad hwn wedi'i gyfyngu i'r deg prif ganolfan manwerthu trefol yn y sir ac mae'r adolygiad yn archwilio i sut y gall y Cyngor weithredu o ran traffig a pharcio er mwyn bod o fudd i fanwerthu yn nghanol y dref o ran cynyddu nifer yr ymwelwyr a gwella masnach.

Mae'r adroddiad yn cynnwys dwy elfen ar wahân sy'n gofyn am gefnogaeth aelodau -

- (1) i ddatblygu'r camau gweithredu a argymhellwyd i'w cyflwyno i'r Grwpiau Ardal yr Aelodau perthnasol (GAA) i'w hystyried yn lleol, a
- (2) gwaith pellach yn cael ei wneud fel rhan o broses y gyllideb ryddid a hyblygrwydd i archwilio'r potensial o amrywio taliadau parcio rhwng trefi.

Fe ddarparodd Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd rywfaint o gyd-destun i'r adroddiad ac ymhelaethodd ar y fethodoleg adolygu a'r mesurau arfaethedig i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol. Trafododd yr Aelodau yr adroddiad adolygu gyda swyddogion a chodwyd y pwyntiau canlynol -

- ymatebion i'r holiaduron trigolion a chymuned busnes a gyhoeddwyd fel rhan o'r adolygiad wedi bod yn galonogol, gyda chyfradd uwch na'r cyfartaledd wedi'u dychwelyd. Mae'r rhan fwyaf o bryderon a amlygwyd yn yr ymatebion yn ymwneud â cherbydau sy'n meddiannu mannau parcio ar y stryd am gyfnod hirach na'r amser a ddyrennir. Mae hynny'n cael effaith andwyol gan ei fod yn rhwystro pobl eraill rhag stopio/ymweld â threfi lleol ac felly mae'r economi lleol yn dioddef
- yr angen am ddigon o lefydd parcio arhosiad byr ar draws y sir er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr i'r trefi
- yr angen am ddigon o lefydd i barcio ar y stryd hefyd er mwyn annog masnach sy'n galw heibio ac i wella iechyd yr economi lleol a byddai'r GAA yn y sefyllfa orau i benderfynu terfyn amser priodol ar gyfer eu hardaloedd penodol
- i wneud y mwyaf o'r manteision economaidd mae angen elfen o gymell trigolion/ymwelwyr i ymweld â siopau, caffis lleol ac ati er mwyn eu denu i ganol trefi; dylai hyn yn ei dro dalu ar ei ganfed
- angen rheoli gwaith gorfodi yn well, gan osgoi patrymau patrol rheolaidd mewn trefi. Staff gorfodi hefyd yn patrolio mewn gwahanol drefi o amgylch y sir er

mwyn osgoi dod yn rhy gyfarwydd â'r cyhoedd/pobl busnes a allai o bosibl arwain at lai o orfodaeth trwyadl

- dylai fod cydbwysedd priodol rhwng camau gorfodi cadarn, defnyddio agwedd yn seiliedig ar synnwyr cyffredin a hynny ar sail achos i achos tra bod yn gwrtais a dangos parch bob amser at bawb dan sylw; byddai cyflwyno camerâu i'w gwisgo ar y corff yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiad yn y dyfodol
- angen arwyddion clir a chywir ym mhob un o leoliadau parcio cyhoeddus y sir a hefyd ar ffyrdd i mewn i'r trefi i sicrhau bod traffig yn cael ei arwain i mewn i lefydd parcio priodol - yn enwedig mewn ardaloedd twristiaeth fel Llangollen, lle gellir cyfeirio twristiaid i ddefnyddio meysydd parcio anghysbell fel bod y meysydd parcio yn nghanol y dref ei hun yn rhydd i siopwyr
- mae llawer o'r aelodau yn awyddus, unwaith i'r GAA drafod a chytuno ar y camau gweithredu priodol ar gyfer eu hardaloedd, fod y cynghorau tref/dinas/cymuned perthnasol yn cael eu hysbysu o'r penderfyiadau
- angen cynnal trafodaeth ar fanteision ac anfanteision cynllun talu am barcio safonol ar draws y sir neu gynllun amrywiol a fyddai'n addas ar gyfer anghenion y trefi unigol eu hunain. Byddai trafodaeth ar dalu am barcio ceir yn y dyfodol yn ffurfio rhan o sesiwn gweithdy cyllideb sydd ar y gweill wrth baratoi ar gyfer cyllideb 2016/17
- bod angen i unrhyw strategaeth barcio yn y dyfodol a/neu bolisi codi tâl fod yn gynaliadwy ac er bod aelodau yn awyddus i ganolbwyntio ar adfywio yn hytrach na chynhyrchu incwm fe ddywedodd y swyddogion y byddai'n rhaid cydbwysu anghenion yr economi leol yn erbyn yr angen i'r Cyngor i godi incwm fel rhan o'i ymgyrch gyffredinol i leihau'r pwysau ar y gyllideb
- fe gododd yr aelodau nifer o bwyntiau yn ymwneud â phroblemau parcio o fewn eu hardaloedd lleol ac roedd hefyd rhywfaint o anghytundeb dros nifer o argymhellion yr adolygiad a chywirdeb y data a ddefnyddir, yn enwedig yn ardal Llangollen. Dywedodd y swyddogion bod y rhan fwyaf o'r materion hynny a godwyd yn yr astudiaeth a'r manylion ar sut i ddatrys problemau unigol yn cael eu trafod yn helaeth yn y GAA priodol yn fuan
- er bod achosion cyffredin ar draws yr holl drefi byddai angen dull gweithredu wedi'i deilwra i fynd i'r afael â nhw gan ystyried amgylchiadau lleol, a derbyniwyd bod y GAA yn y sefyllfa orau i drafod a phenderfynu camau rheoli traffig priodol ar gyfer eu hardaloedd unigol - penderfynwyd i ddiwygio argymhelliad 3.2 o'r adroddiad i gynnwys yr angen i'r GAA i gytuno ar y camau gweithredu angenrheidiol
- amlinellwyd gwahanol fathau o gymhellion a chynlluniau parcio ceir, gan gynnwys costau dangosol o osod a chynnal a chadw gwahanol fathau o fetrau parcio, systemau adnabod rhifau ceir, ac ati.; tra bod nifer o fesurau wedi cael eu harchwilio roedd rhai yn gostus ac yn amhoblogaidd gyda'r cyhoedd ac yn y tymor byr argymhellwyd y defnydd o swyddogion gorfodi
- trafodwyd y pwysau parcio ychwanegol posibl yn Llangollen o ganlyniad i'r ganolfan iechyd a'r archfarchnad newydd arfaethedig, a dywedodd y swyddogion y byddai adroddiad ar wahân ar reoli pwysau traffig yn cael ei gomisiynu, yn ogystal ag adroddiad ar bwysau traffig a rheoli parcio yn y dref pan gynhelir digwyddiadau arbennig yn y Pafiliwn. Cytunodd y swyddogion i rannu'r adroddiad gyda GAA Dyffryn Dyfrdwy pan fydd ar gael;
- dywedwyd wrth yr aelodau y byddai'r Cyngor yn cysylltu â'r swyddogion traffig i gael cyngor ar ôl derbyn y ceisiadau ar gyfer datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol

(CDLI) gyda'r bwriad o argymhell cynlluniau rheoli traffig ar gyfer y safleoedd sydd ar fin cael eu datblygu;

- trafodwyd y mater o ddadleoli oherwydd cyfyngiadau parcio newydd/diwygiedig a sut y gellid eu rheoli yn y dyfodol, yn ogystal ag argaeledd meysydd parcio i fysiau ar draws y sir, ac
- gofynnodd yr aelodau am wybodaeth ar yr incwm blynyddol a gynhyrchwyd gan bob un o feysydd parcio y sir.

Eglurodd y swyddogion bod angen penderfyniadau lleol i rai o'r elfennau adolygu ardaloedd unigol ond mae eraill, megis y taliadau parcio ceir amrywiol, angen mynd trwy'r broses o aelodau yn gwneud penderfyniadau. Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn adroddiad yn ôl ar gasgliadau'r adolygiad talu am barcio cyn ei gyflwyno i'r Cabinet.

PENDERFYNWYD - bod y Pwyllgor yn:-

- derbyn yr adroddiad, ac yn nodi cynnwys yr Adolygiad;*
- cefnogi, mewn egwyddor, datblygu'r camau gweithredu a argymhellwyd yn yr Adolygiad ac yn ôl y crynodeb yn Atodiad C o'r adroddiad, yn cynnwys cyfrifo'r costau dangosol i bob un o'r camau gweithredu, a thrafod a chytuno ar y camau hyn gyda phob un o'r Grwpiau Ardal yr Aelodau perthnasol;*
- cefnogi cynnal darn arall o waith manwl i archwilio potensial amrywio ffioedd parcio rhwng trefi yn unol â'r ddarpariaeth a'r galw fel y nodwyd yn yr Adolygiad Traffig a Pharcio, a*
- derbyn adroddiad pellach ar gasgliadau adolygiad amrywiol taliadau parcio pan fydd ar gael a chyn ei gyflwyno i'r Cabinet.*

[Pleidleisiodd y Cyngorydd Rhys Hughes yn erbyn penderfyniad (c) uchod.]

Ar y pwynt hwn (11.20 am) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

6 CYFLWYNO TALIADAU AM GASGLIADAU GWASTRAFF GWYRDD

Cyflwynodd y Rheolwr Gwastraff a Thrafnidiaeth adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn manylu ar y cynnydd ar lefel y cwsmer sy'n manteisio ar y cynllun gwastraff gwyrdd trethadwy newydd ynghyd â goblygiadau gwasanaeth a chyllideb cysylltiedig. Roedd yn falch o adrodd ar ffigurau cwsmer diweddaraf ac esboniodd yn fanylach fecanwaith y cynllun fel a ganlyn -

- y targed oedd rhwng 10,000 - 15,000 eiddo ac o 29 Ionawr (deufis cyn cychwyn y cynllun) roedd 8,308 o eiddo wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth, mae hyn wedi rhagori ar y ffigur a amcangyfrifwyd ar hyn o bryd; a'r disgwyl oedd i'r duedd gadarnhaol hon barhau gyda chyfran o gwsmeriaid tua diwedd mis Mawrth
- y dyddiad cau ar gyfer y cynnig 'cyn cŵn caer' ar gyfer y rhai sydd wedi cofrestru ar gyfer y cynllun wedi'i ymestyn o 31 Ionawr to 14 Chwefror 2015
- y broses gofrestru ar-lein wedi bod yn hynod effeithiol ac yn hawdd i'w defnyddio gyda dwy ran o dair wedi cofrestru ar-lein

- y cynllun wedi'i gyflwyno fel mesur arbedion effeithlonrwydd ac mae'r defnydd a wnaed ohono wedi effeithio yn uniongyrchol ar faint o staff sydd eu hangen i gyflawni'r gwaith - fel yr oedd disgwyl ni fyddai rhai unigolion yn cofrestru ar gyfer y cynllun nes bod y tymor tyfu wedi dechrau ac roedd hi'n anodd cadarnhau ar y pwynt hwn faint o staff a fyddai'n cael eu gwneud yn ddiwaith o ganlyniad i gyflwyno'r cynllun
- mae nifer o ddatganiadau o ddiddordeb mewn cymryd diswyddiad gwirfoddol wedi eu gwneud ar draws y Gwasanaethau Amgylcheddol a Phriffyrdd a rhagwelid y dylai bod y datganiadau hynny o ddiddordeb, ynghyd â 'gwastraff naturiol', yn ddigonol i dalu am unrhyw ddiswyddiadau sy'n ofynnol yn dilyn cyflwyno'r cynllun gwastraff gwyrdd trethadwy newydd
- tra mai Sir Ddinbych oedd y cyngor cyntaf yng Ngogledd Cymru i gyflwyno taliadau am gasglu a gwaredu gwastraff gwyrdd, mae chwe chyngor yn Ne Cymru eisoes yn codi tâl am y gwasanaeth.

Mewn ymateb i gwestiynau aelodau, dyma swyddogion yn-

- cadarnhau bod y polisi codi tâl ar gyfer y gwasanaeth yn cydymffurfio yn llwyr â chanllawiau Glasbriant Llywodraeth Cymru ar Gasgliadau; yr oedd hefyd yn debyg i'r hyn a wnaeth nifer o gynghorau yn Lloegr mewn perthynas â gwastraff gwyrdd
- cynghori nad oeddent yn rhagweld y nifer o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon o wastraff gwyrdd yn cynyddu yn fawr yn dilyn cyflwyno'r tâl. Yn ymateb i adroddiadau oedd yn nodi mai Sir Ddinbych oedd yr awdurdod sy'n perfformio waethaf yng Nghymru o ran ystadegau tipio anghyfreithlon, fe ddywedodd y swyddogion fod hyn yn ganlyniad i arferion cofnodi cadarn yn y sir a gallu'r system ddata 'Flycapture' yn genedlaethol i adlewyrchu hyn a pherfformiad y sir wrth gael gwared ar wastraff wedi'i dipio yn anghyfreithlon. Mae'r mater hwn wedi cael ei drafod gan archwilio yn y deuddeg mis diwethaf
- tra bod tua 38,000 eiddo ar hyn o bryd wedi derbyn biniau gwyrdd, tydi pob un ohonynt ddim yn defnyddio'r gwasanaeth ac mae nifer yn compostio'r gwastraff eu hunain. Nid yw'r unigolion hynny sy'n compostio wedi eu cynnwys yn ffigurau ailgylchu'r sir
- ar hyn o bryd mae tua 4k tunnell o wastraff gwyrdd yn cael ei gasglu bob blwyddyn yn y sir ac er y tybir y byddai'r rhai a gofrestrwyd ar gyfer y cynllun yn rhoi mwy o wastraff gwyrdd allan, roedd cynilion wedi eu cyfrifo yn seiliedig ar y nifer o lwybrau a gweithlu sydd eu hangen i weithredu'r cynllun yn hytrach na chanolbwyntio ar gyfanswm y gwastraff gwyrdd a gasglwyd
- rhagwelwyd y byddai tynnu'r gwasanaeth sy'n rhad ac am ddim yn ôl yn arwain at y Cyngor i gollu ei le ar frig y gynghrair ailgylchu yng Nghymru, yn ôl pob tebyg yn cofrestru gostyngiad o tua 4%. Fodd bynnag, dylai barhau i fod ymhlith yr uchaf o ran yr ailgylchwyr gorau ac ni chosbir y cyngor yn sgîl y gostyngiad yn ei gyfradd ailgylchu
- unwaith y byddai'r cynllun newydd yn weithredol ac yn ystod yr wythnos diwethaf ym mis Mawrth 2015, byddai wedyn yn wasanaeth ailgylchu 12 mis. Byddai gwastraff gwyrdd yn cael ei gasglu bob pythefnos - 24 o gasgliadau y flwyddyn (yn methu un casgliad adeg y Nadolig)
- byddai'r gwasanaeth yn rhedeg am 12 mis o'r casgliad cyntaf - ar gyfer y mwyafrif o bobl byddai hynny yn fis Mawrth i mis Chwefror y flwyddyn nesaf,

ond ar gyfer y rhai sy'n ymuno yn ddiweddarach, ee Mehefin, byddent yn derbyn y gwasanaeth hyd at y mis Mai canlynol

- byddai'r eiddo hynny wedi cofrestru â'r gwasanaeth yn derbyn codau bar i'w hatodi ar eu biniau gwyrdd, ac fel mesur gwirio ychwanegol byddai offer GPS yn cael ei osod ar bob cerbyd casglu gwastraff gwyrdd er mwyn dilysu biniau a chyfeiriadau eiddo
- mae £9k wedi cael ei roi o'r neilltu i hysbysebu ac i sefydlu'r gwasanaeth newydd. Mae £4k wedi cael ei glustnodi i gyflogi staff asiantaeth i ddelio â'r broses gofrestru. Hyd yma nid oes staff asiantaeth wedi cael eu cyflogi gan fod y broses gofrestru wedi'i wneud yn fewnol drwy ddefnyddio staff y Gwasanaeth a oedd ar hyn o bryd yn cyflawni 'dyletswyddau ysgafn' ar ôl cael anaf neu salwch
- rhoddwyd sicrwydd fod loriau casglu gwastraff ddim yn mynd o gwmpas i godi casgliadau a fethwyd achos bai deiliad y tŷ ac nid bai yr awdurdod
- mae loriau gwastraff bin ar raglen amnewid dreigl, ac felly yn cael gwared ar unrhyw gerbydau yn weddill i anghenion yn y rhaglen hon unwaith y byddai'r gwasanaeth y codir tâl amdano wedi cael ei sefydlu.
- byddai preswylwyr na fyddai'n defnyddio'r gwasanaeth newydd ac sy'n dewis peidio â chadw eu biniau gwyrdd yn cael gwybod bod y gwastraff yn ailgylchadwy a bod modd mynd â'u bin i safle amwynderau sifil lleol os y dymument wneud hynny
- byddai cyhoeddusrwydd pellach ynghylch y cynllun yn cael ei gynnal yn ystod y misoedd i ddod, gan gynnwys hysbysebu ar gerbydau sbwriel ac ati. Awgrymodd Aelodau y gallai fod yn ddefnyddiol, fel rhan o'r ymgyrch gyhoeddusrwydd ddiweddaraf, i dynnu sylw preswylwyr at yr agwedd gwerth am arian ar gyfer y gwasanaeth mewn cymhariaeth i lwytho'r gwastraff budur yn eu ceir a chostau tanwydd a thraul o gario'r gwastraff i safle mwynderau sifil

Gofynnodd yr Aelodau i'r swyddogion i fonitro meysydd risg sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth newydd hwn wrth gyflwyno'r gwasanaeth, yn enwedig y tunelli o wastraff gweddilliol a gesglir o'i gymharu â'r gyfradd, nifer a natur yr achosion tipio anghyfreithlon presennol a'r trigolion sy'n manteisio ar y gwasanaeth. Byddai'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r Grŵp Tasg a Gorffen a fyddai'n gwerthuso effaith y toriadau i'r gyllideb "Torri'r Got yn ôl y Brethyn" maes o law.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y sylwadau uchod -

- (a) y dylid derbyn yr adroddiad, a
- (b) dylai'r Grŵp Tasg a Gorffen Archwilio (a sefydlwyd i werthuso effaith y toriadau yn y gyllideb) archwilio a monitro effaith cyflwyno'r taliadau am gasglu gwastraff gwyrdd fel rhan o'i waith ar y cynigion Torri'r Got yn ôl y Brethyn.

7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynnydd Archwilio adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r aelodau adolygu rhaglen waith y pwyllgor ac i roi diweddiariad ar faterion perthnasol.

Wrth ystyried y rhaglen waith dyma'r aelodau yn -

- trafod pa gynrychiolwyr a fyddai orau i lenwi'r llefydd gwag yn y Grwpiau Herio Gwasanaeth a chael eu penodi i'r Grŵp Tasg a Gorffen Archwilio sy'n cael ei sefydlu ar hyn o bryd i werthuso effaith y toriadau yn y gyllideb. Byddai'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio yn cadarnhau aelodaeth y Grŵp yn fuan
- cadarnhau bod adroddiad ar yr adolygiad o daliadau parcio amrywiol yn cael eu hychwanegu at y rhaglen waith fel y cytunwyd yn gynharach yn y cyfarfod
- cytunwyd bod cyfarfod mis Ebrill yn cael ei gyfyngu i ddau brif eitem busnes i sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo i graffu ar yr adroddiad ar Gategoreiddio Iaith yn Ysgolion y Sir
- cytunwyd i beidio â gwahodd yr Aelod Arweiniol dros Dir y Cyhoedd i gyfarfod nesaf y pwyllgor o ystyried natur dechnegol yr eitemau busnes, a
- nodir adroddiad gwybodaeth am y Gronfa Gwaddol Cymunedol a oedd wedi'i gynnwys o fewn briff gwybodaeth y pwyllgor.

Fe gyfeiriodd y Cydlynnydd Archwilio at weithrediad sy'n codi o'r cyfarfod pwyllgor diwethaf (o dan yr eitem Drafft Strategaeth Safleoedd Carafannau) i drefnu cyfarfod rhwng y Rheolwr Datblygu a pherchennog un o safleoedd carafannau mwyaf y sir. Gofynnodd yr Aelodau i'r cyfarfod hwn gael ei gynnal cyn cyfarfod nesaf y pwyllgor ym mis Mawrth er mwyn llywio'r drafodaeth ar y cynnydd ynglŷn â'r Strategaeth Safleoedd Carafannau.

PENDERFYNWYD:-

- yn amodol ar gynnwys yr uchod, y dylid cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel y manylir yn Atodiad 1 yr adroddiad.*
- Mynegodd y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts a Rhys Hughes ddiddordeb mewn cael eu penodi yn gynrychiolwyr y pwyllgor ar y Grŵp Tasg a Gorffen Archwilio i werthuso effaith y toriadau yn y gyllideb gyda Chynghorwyr Win Mullen-James a Joe Welch yn mynegi diddordeb mewn cael eu penodi yn gynrychiolwyr wrth gefn*
- y cynrychiolwyr pwyllgor canlynol a chynrychiolwyr wrth gefn yn cael eu penodi i'r Grwpiau Herio Gwasanaethau -*

Priffyrdd - Y Cynghorwyr Rhys Hughes a Cefyn Williams (dirprwy)

Cynllunio - Y Cynghorydd Win Mullen-James a Cefyn Williams (dirprwy)

Cyllid ac Asedau – Y Cynghorydd Peter Evans (i gymryd lle'r Cynghorydd Rhys Hughes, i ddod i rym yn y rownd nesaf o Heriau Gwasanaeth).

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Adroddodd cynrychiolwyr y Pwyllgor ar eu presenoldeb mewn cyfarfodydd fel a ganlyn -

Roedd y Cynghorydd Win Mullen-James yn aelod o'r Fforwm Rhianta Corfforaethol a adroddodd ar gyfarfod defnyddiol a gynhaliwyd yr wythnos flaenorol gyda rhieni maeth lle cafodd nifer o bwyntiau eu codi a fyddai'n arwain at welliannau gwasanaeth ar gyfer y rhieni maeth yn ogystal â'r plant sy'n derbyn gofal.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Joe Welch at ei bresenoldeb yn y Grŵp Monitro Safonau Ysgolion yn ddiweddar ac adroddodd ar y fformat newydd a oedd yn canolbwyntio ar drafod. Cafwyd canlyniadau cadarnhaol ar gyfer pob un o'r tair ysgol a drafodwyd - Ysgol Uwchradd y Rhyl, Ysgol Plas Cefndy, Y Rhyl ac Ysgol Penmorfa, Prestatyn.

Adroddodd y Cynghorydd Cefyn Williams ar un o gyfarfodydd y Gweithgor Tai Fforddiadwy a'r adolygiad cynhwysfawr sydd wedi'i wneud ac a fyddai'n debygol o arwain at newidiadau sylweddol. Byddai un cyfarfod arall o'r Gweithgor yn cael ei gynnal cyn y byddai adroddiad yn dod gerbron yr aelodau i'w hystyried.

Adroddodd y Cadeirydd ar y canlynol -

- tydi Cadwyn Clwyd (Asiantaeth Datblygu Gwledig) heb gyfarfod ers cryn amser ac roedd yn ymddangos i fod yn dirwyn i ben yn raddol gyda chyllid Ewropeaidd yn annhebygol o fod ar gael tan fis Medi 2015
- mae Coleg Cambria hefyd yn wynebu toriadau yn y gyllideb a oedd yn dod yn fwy o ymdrech i'w rheoli
- byddai cyfarfod nesaf y Bwrdd Taith yn trafod y dyfodol gyda phob un o'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yn cyflwyno cynllun i'r Gweinidog dros Drafnidiaeth
- yn ystod cyfarfod y Bwrdd Uchelgais Economaidd a Chymunedol roedd wedi herio'r targedau a sut y cyflawnir y targedau gyda mwy o waith yn cael ei wneud yn y cyswllt hwnnw
- roedd yn aelod o'r Grŵp Buddsoddi Strategol a chafodd canlyniad eu gwaith ei adrodd drwy'r Cabinet a'r Cyngor.

PENDERFYNWYD y dylid nodi'r adroddiadau llafar oddi wrth aelodau a fu'n mynychu cyfarfodydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.35pm.

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Archwilio Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod:	12 Mawrth 2015
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol dros Addysg/ Pennaeth Addysg
Awdur yr Adroddiad:	Pennaeth Addysg
Teitl:	Categoriâu iaith holl ysgolion Sir Ddinbych

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Categoriâu iaith ysgolion yn Sir Ddinbych.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Ar 30 Medi 2014 penderfynodd y Cabinet ofyn i Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg adolygu categori iaith pob ysgol yn ystod tymor yr hydref a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ar ddechrau gwanwyn 2015.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn:

- 3.1. ystyried y wybodaeth sydd wedi'i darparu ynghylch adolygu categorïau iaith; a
- 3.2. penderfynu os oes angen monitro gweithredu'r adolygiad ymhellach.

4. Cyd-destun y categorïau

Mae *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, Hydref 2007 (dogfen rhif 023/2007)* yn amlinellu disgrifiadau a chategoriâu ysgolion yn ôl faint o Gymraeg sy'n cael ei defnyddio wrth ddysgu ac addysgu; ac yn yr ysgol o ddydd i ddydd.

Defnyddir y categorïau er mwyn casglu gwybodaeth ynglŷn â darpariaeth yn genedlaethol ac fe'u defnyddir yn lleol gan awdurdodau addysg ac ysgolion er mwyn rhoi gwybod i rieni am ba fath o ysgolion sydd ar gael mewn cymdogaethau gwahanol. Mae'r ddogfen yn datgan y dylai'r wybodaeth helpu llywodraeth leol a chenedlaethol i asesu os yw'r ddarpariaeth yn cwrdd â'r galw lleol.

Yn unol â'r angen sydd wedi'i amlinellu yn y ddogfen hon, mae categorïau a disgrifiadau wedi eu cynnwys yn y llyfryn gwybodaeth 'Ysgolion Sir Ddinbych: Gwybodaeth i rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr', sy'n cael ei gyhoeddi'n flynyddol.

Mae'n bwysig nodi bod dogfen y Llywodraeth yn datgan 'Er nad oes unrhyw sail gyfreithiol i'r diffiniadau, eu diben yw rhoi gwell gwybodaeth i rieni ac i lywodraeth leol a chenedlaethol ynghylch i ba raddau y mae disgyblion yn

dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.' Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, Hydref 2007, tudalen 2.

Mae'r categorïau (ar gyfer cyfnod gorfodol addysg) yn diffinio ysgolion cynradd ac uwchradd yn ôl y canlynol:

- y cyfrwng addysgu ym mhob cyfnod allweddol: h.y. canran y cwricwlwm (cynradd) a chanrannau'r pynciau (uwchradd) a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg;
- yr iaith/ieithoedd a ddefnyddir wrth gyfathrebu â disgyblion y tu allan i'r cwricwlwm, ethos yr ysgol, yr iaith a ddefnyddir yn yr ysgol o ddydd i ddydd, a'r iaith/ieithoedd sy'n cael eu defnyddio i gyfathrebu â'r rhieni; ac
- y canlyniadau arferol a ddisgwylir ar gyfer disgyblion sy'n mynychu pob math o ddarpariaeth o ran eu datblygiad addysgol.

Nid yw'r diffiniadau'n ceisio mynd ati i bennu yn union yr hyn y gallai disgyblion unigol ei gael yn yr ysgol.

4.1 Meini prawf y categorïau

Mae'r categorïau canlynol yn y sector cynradd:

1. Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg
2. Ysgol Gynradd Ddwy Ffrwd
3. Ysgol Gynradd Drawsnewidiol (cyfrwng Cymraeg ond â defnydd sylweddol o'r Saesneg)
4. Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg
5. Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf

Mae'r categorïau canlynol yn y sector uwchradd:

1. Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg
2. Ysgol Uwchradd Ddwyieithog (mae'r categori hwn wedi ei rannu'n 4 is-adran)
3. Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg
4. Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf

Noder nad oes yna fframwaith categori iaith ar gyfer ysgolion arbennig. Addysgir y Gymraeg fel ail iaith yn bennaf yn ysgolion arbennig Sir Ddinbych.

Mae esboniad manwl o bob categori wedi'i roi yn Atodiad 1.

4.2 Holiadur Categori Iaith

Mae dyhead clir am sgiliau dwyieithog yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae'r cynllun hefyd wedi mabwysiadu'r dyhead hirdymor y bydd holl blant a phobl ifanc y Sir yn gadael addysg llawn amser yn gymwys ac yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r Cyngor yn cydnabod mai dyhead hirdymor yw hwn na fydd yn cael ei gyflawni am nifer o flynyddoedd. Er mwyn cyflawni'r dyhead hwn bydd y Cyngor yn parhau i

ehangu darpariaeth Cyfwng Cymraeg drwy'r sir er mwyn adlewyrchu a manteisio ar y galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd y Cyngor yn cydweithio â'n hysgolion cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog i gynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i sicrhau bod y disgyblion sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector cynradd yn parhau i wneud yn y sector uwchradd. (Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17 t. 2)

Yn 2014 cytunodd Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg, sef y grŵp sy'n monitro darpariaeth Cynllun y Gymraeg mewn Addysg Sir Ddinbych, bod amcanion y Cynllun yn galw am werthuso'r ddarpariaeth bresennol ym mhob ysgol yn Sir Ddinbych yn ôl meini prawf y categorïau. Atgyfnerthwyd y galw hwn ymhellach gan benderfyniad y Cabinet ar 30 Medi 2014 i ofyn i Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg adolygu categori pob ysgol yn ystod tymor yr hydref a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ar ddechrau gwanwyn 2015.

Anfonwyd holiadur i bob ysgol gynradd ac i'r ddwy ysgol uwchradd ddwyieithog, Ysgol Dinas Brân ac Ysgol Brynhyfryd.

Gweler Atodiad 2.

4.3 Canlyniadau'r holiadur

Cynradd

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd drwy'r holiadur mae darpariaeth pob ysgol gynradd wedi'i chymharu â'i chategori presennol, sydd fel a ganlyn:

1 Cyfrwng Cymraeg: Betws GG, Carreg Emlyn, Bro Dyfrdwy, Twm o'r Nant, Bro Elwern, Henllan, Gwernant, Bro Cinmeirch, Pentrecelyn, Y Llys, Pant Pastynog, Dewi Sant, Pen Barras, Tremeirchion
2 Dwy Ffrwd: Llanfair, Rhewl
3 Trawsnewidiol: Dim Ysgolion
4 Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg: Carrog, Caer Drewyn, Bryn Clwyd, Dyffryn Iâl, Llywelyn
5 Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf: Y Faenol, Bodfari, Cefn Meiriadog, y Santes Ffraid, Frongoch, Pendref, Y Parc, Hiraddug, Gellifor, Bro Famau, Llanbedr, Bryn Collen, Melyd, Bodnant, Clawdd Offa, Penmorfa, Y Castell, Bryn Hedydd, Emmanuel, Mair, Christchurch, Borthyn, Stryd Rhos, Llanelwy VP, Esgob Morgan, Trefnant

Gweler Atodiad 3 am ddadansoddiad manwl o'r ymatebion.

Mae'r ymatebion wedi eu gwirio yn ôl deilliannau addysgol cyfredol yr ysgolion. Er enghraifft:

Ysgol Dewi Sant (Categori 1) – asesir pob disgybl drwy gyfrwng y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol.

Ysgol Llanfair (Categori 2) – yn 2014, aseswyd 73% o ddisgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2.

Ysgol Carrog (Categori 4) – asesir pob disgybl drwy gyfrwng y Saesneg.

Ysgol Emmanuel (Categori 5) – asesir pob disgybl drwy gyfrwng y Saesneg.

Ysgolion Uwchradd

Mae Ysgol Brynhyfryd yn cynnig y nifer gofynnol o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg i fodloni meini prawf categori 2B. Cadarnhawyd hyn gan yr ysgol.

Ar sail y wybodaeth a ddarparwyd gan yr ysgol, nid yw Ysgol Dinas Brân yn cynnig y nifer gofynnol o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg i fodloni meini prawf diffiniad Llywodraeth Cymru ar gyfer categori 2B. Mae'r wybodaeth yn awgrymu bod yr ysgol yn fwy tebygol o fodloni meini prawf categori 2C.

Mae'r ymateb manwl wedi'i roi yn Atodiad 4.

4.4 Crynodeb

Yn ôl y categorïau a gofnodwyd yn y llyfryn ar gyfer rhieni, mae yna 47 ysgol gynradd yn Sir Ddinbych. Ystyrir 14 ohonynt yn rhai Cyfrwng Cymraeg, 2 yn ysgolion Dwy Ffrwd, 5 yn Gyfrwng Saesneg yn bennaf â defnydd sylweddol o'r Gymraeg, a 26 yn Gyfrwng Saesneg.

Ar sail y canlyniadau sydd wedi'u coladu o'r holiaduron a'r data ynghylch cyrhaeddiad, mae rhai ysgolion nad ydynt ar hyn o bryd yn bodloni meini prawf eu categori presennol yn llawn.

Ysgol Rhewl – nododd yr ysgol bod rhywfaint o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yno ac er nad yw'r un disgybl wedi ei asesu drwy gyfrwng y Gymraeg dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r ysgol yn disgwyl asesu dau ddisgybl drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2015.

Ysgol Llywelyn – mae'r ysgol yn cydnabod nad yw'n darparu canran ddigonol o'i darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg i barhau yng nghategori 4. Nododd yr ysgol fod y ddarpariaeth yno'n gategori 5.

Ysgol Dyffryn Iâl – nododd yr ysgol ei bod yn cynnig mwy nag un ffrwd iaith. Aseswyd 4 disgybl drwy gyfrwng y Gymraeg dros y 3 mlynedd ddiwethaf.

Yn y sector uwchradd, ar sail y canlyniadau a goladwyd, mae Ysgol Brynhyfryd yn bodloni meini prawf ysgol categori 2B. Mae Ysgol Dinas Brân yn bodloni meini prawf ysgol categori 2C.

5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at y Flaenoriaeth Gorfforaethol o wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ein hysgolion.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Amh.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

Byddai'r angen i gyflawni Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei ailasesu pan fydd categori iaith ysgol yn newid, fel rhan o broses statudol. Gweler Atodiad 5.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Amh.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Amh.

10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Amh.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Erthygl 6.3.2(d) yn datgan y gall y Pwyllgorau Archwilio "ystyried unrhyw fater a gyfeiriwyd ato gan y Cyngor neu'r Cabinet".

Swyddog Cyswllt:

Pennaeth Addysg

Ffôn: 01824 708009

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Defining schools according to Welsh medium provision Information document
No: 023/2007 Date of issue: October 2007**

Definitions of Schools: Primary school categories

1. Welsh-Medium Primary School

Curriculum - all Pupils in the Foundation Phase experience the areas of learning through the medium of Welsh. Welsh is the main teaching medium at KS2 with at least 70% of the teaching through the medium of Welsh. English is introduced formally as a subject at Key Stage 2 and is taught through the medium of English, and English may occasionally be used for some aspects of some subjects.

Language of the School - Welsh is the language of the day to day business of the school. Welsh is used as the language of communication with the pupils and for the school's administration. The school communicates with parents in both languages.

Outcomes - The normal expectation is that pupils, regardless of home language, will be able to transfer easily to Welsh medium secondary provision and by the end of Key Stage 2 will have reached a standard in English equivalent to that reached by pupils in predominantly English medium schools.

2. Dual Stream Primary School

Curriculum - Two types of provision exist side-by-side in these schools. Parents/pupils opt either for the mainly Welsh-medium or mainly English-medium provision which is usually delivered as in categories 1 and 5 respectively.

Language of the School - Both Welsh and English are used in the day to day business of the school. The language of communication with the pupils is determined by the nature of the curricular provision, but in some schools high priority is given to creating a Welsh-language ethos throughout the school. The school communicates with parents in both languages.

Outcomes - for pupils in the Welsh stream, normal expectations areas for category 1. For pupils in the English medium stream, normal expectations are as for category 5.

3. Transitional primary school: Welsh medium with significant use of English

Curriculum - Pupils in the Foundation Phase experience the areas of learning mainly through the medium of Welsh. Both languages are used in teaching at Key Stage 2 but with greater emphasis on Welsh, so that Welsh is used as the medium of instruction for over half and up to 70% of the curriculum. (Schools would usually only be in this category on a temporary basis)

Language of the School - Welsh is the language of the day to day business of the school. A high priority is given to creating a Welsh ethos. The school communicates with parents in both languages.

Outcomes - The normal expectation is that some pupils, particularly from Welsh speaking homes may be able to transfer to Welsh medium secondary provision and by the end of Key Stage 2 all pupils will have reached a standard in English equivalent to that reached by pupils in predominantly English medium schools.

4. Predominantly English Medium primary school but with significant use of Welsh

Curriculum - Pupils in the Foundation Phase experience the areas of learning in both languages but with greater emphasis on English. In Key Stage 2, both Welsh and English is used in teaching but there is greater emphasis on English. Welsh is used as the medium of teaching or learning for between 20% and 50% of the primary curriculum overall.

Language of the School - The day to day language or languages of the school are determined by the school's linguistic context. Both languages are used as languages of communication with the pupils and for the school's administration. A high priority is given to creating a Welsh ethos. The school communicates with parents in both languages.

Outcomes - The normal expectation is that pupils will transfer to English medium secondary provision, but will have attained enhanced Welsh second language skills. Some pupils may be able to pursue a limited number of subjects through the medium of Welsh at secondary level where these are offered.

5. Predominantly English medium primary school

Curriculum - All pupils in the Foundation Phase experience the areas of learning mainly through the medium of English. English is the main teaching medium at KS2. Welsh is taught as a second language in KS2, and some aspects of some subjects may be taught in Welsh. Less than 20% of the teaching is through the medium of Welsh.

Language of the School - English is the language of the day to day business of the school, but some Welsh is also used as a language of communication with the pupils with the aim of improving their capacity to use every day Welsh. The school communicates with parents either in English or in both languages.

Outcomes - The normal expectation is that pupils will transfer to English medium secondary provision and continue to learn predominantly through the medium of English, learning Welsh as a second language.

Defining schools according to Welsh medium provision: Secondary School Categories

1. Welsh-Medium Secondary School

Curriculum - All subjects (including RE and PSE) apart from English are taught through the medium of Welsh to all pupils, although some schools may introduce English terminology in one or two subjects.

Language of the School - Welsh is the day to day language of the school. Welsh is used as the language of communication with the pupils and for the school's administration. The school communicates with parents in both languages.

Outcomes - For all pupils the normal expectation is that assessment at KS3 and KS4 will be through the medium of Welsh in all subjects apart from English or other languages, and that pupils will be able to progress easily to Welsh medium Post 6 provision.

2. Bilingual Secondary School

Curriculum - This category has 4 sub-divisions according to the percentage of subjects taught through the medium of Welsh and whether there is parallel provision in English. The categories and definitions do not reflect the number or proportion of pupils taking advantage of provision in Welsh in a school. Governing bodies will be expected to provide information in the school prospectus on the extent to which choice of provision is available and whether access to Welsh medium provision is conditional on the level of competence the pupil has in Welsh. The prospectus should also indicate the number of pupils taking up choices of provision.

Category 2A - At least 80% of subjects apart from English and Welsh are taught only through the medium of Welsh to all pupils. One or two subjects are taught to some pupils in English or in both languages.

Category 2B - At least 80% of subjects (excluding Welsh and English) are taught through the medium of Welsh but are also taught through the medium of English.

Category 2C - 50 - 79% of subjects (excluding Welsh and English) are taught through the medium of Welsh but are also taught through the medium of English.

Category 2CH - All subjects, except Welsh and English taught to all pupils using both languages.

Language of the School - The day to day language or languages of the school will be determined by its linguistic context. Both languages are used to communicate with pupils and for the school's administration. A high priority is given to creating a Welsh ethos. The school communicates with parents in both languages.

Outcomes - For pupils in 2A, 2B and 2C following the maximum number of courses through the medium of Welsh, the normal expectation is that assessment at KS3 and KS4 would be through the medium of Welsh in those subjects and that they would be able to progress easily to post 6 provision through the medium of Welsh in chosen

- 4.6 Y prosiectau a ddewiswyd oedd y rhai a aseswyd sydd â'r potensial o gael yr effaith fwyaf ar y prif ddangosyddion. Yn bennaf maent yn gynlluniau sy'n cefnogi busnesau i sefydlu a thyfu, sicrhau bod gwybodaeth am gyfleoedd newydd yn y farchnad ar gael yn haws, a mynd i'r afael â'r gwendidau o ran argaeledd tir ac adeiladau ar gyfer busnesau a thechnoleg cyfathrebu fodern; sy'n cefnogi ein preswylwyr, yn enwedig ein pobl ifanc, i gaffael y sgiliau a fydd yn eu gwneud yn ddeniadol i gyflogwyr a byddwn yn cefnogi busnesau newydd yn y sectorau twf newydd; ac sy'n hyrwyddo Sir Ddinbych fel lleoliad da i sefydlu busnesau, aros, buddsoddi a thyfu.
- 4.7 Dangosir y camau blaenoriaeth yn Atodiad 1, ynghyd â'r gwasanaeth Cyngor sydd â'r dasg o arwain ar eu cyflawniad. O'r 16 prosiect blaenoriaeth, neilltuwyd un o bob dau ohonynt i'r Tîm Datblygu Economaidd a Busnes arwain arnynt. Drwy ddyrannu cyfrifoldeb am gyflenwi i'r gwasanaethau sydd yn y sefyllfa orau i arwain ar y gwahanol feysydd gwaith, gall y Cyngor wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ganddo, a sicrhau ar yr un pryd ei fod yn cyflawni ei Flaenoriaethau Corfforaethol.
- 4.8 Gyda'i gilydd, mae'r prosiectau'n cael eu rheoli fel Rhaglen, a lywodraethir gan Fwrdd o uwch swyddogion ac Aelodau etholedig. Mae'r trefniadau newydd ar gyfer Datblygu Economaidd a Busnes yn tynnu'r gwaith o reoli'r Tîm Datblygu Economaidd a Busnes a'r Rhaglen Uchelgais Economaidd a Chymunedol ynghyd mewn un swydd.
- 4.9 Seiliwyd capasiti'r Tîm Datblygu Economaidd a Busnes diwygiedig ar y blaenoriaethau y disgwylir iddynt fwrw ymlaen â nhw. Mae'r adolygiad hefyd wedi ein galluogi i gwblhau'r adolygiad o swyddogaethau yn y tîm a sefydlu

cymysgedd o swyddi generig a mwy penodol. Dangosir y tîm diwygiedig yn Atodiad 2. Mae'r swyddogaethau penodol yn ychwanegu elfen o arbenigedd a arferai fod ar goll o fewn swyddogaeth Datblygu Economaidd y Cyngor, yn arbennig swydd y Swyddog Arweiniol sy'n hyrwyddo Mewnfuddsoddi a sectorau/ busnesau Twf Uchel. Er mwyn sicrhau y cynhelir cydbwysedd ar gyfer busnesau cynhenid a busnesau ar raddfa lai presennol, crëwyd ail swydd Swyddog Arweiniol yn canolbwyntio ar Dwf Lleol hefyd.

- 4.10 Newid allanol sydd wedi cyfrannu at y gostyngiad ym maint y Tîm Datblygu Economaidd a Busnes yw'r bwriad i greu Tîm Cyllid Ewropeaidd (Gogledd Cymru). Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) wedi rhoi cyngor clir bod angen dull mwy rhanbarthol yn sgil y gostyngiad cyffredinol yn y rownd nesaf o Gyllid Ewropeaidd. Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu rhaglenni a fydd yn galluogi i brosiectau lleol gael eu darparu ac mae'r rhain yn cael eu trafod ar hyn o bryd gyda WEFO. Mae adroddiad ar gyfleoedd Cyllid Ewropeaidd a chyfleoedd Cyllid eraill yn cael ei baratoi ar gyfer y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau yn ddiweddarach y mis hwn.
- 4.11 Ar yr un pryd, mae WEFO wedi nodi y dylid hefyd rheoli trefniadau cymorth Cyllid Ewropeaidd yn rhanbarthol, ac mae cynlluniau ar y gweill i sefydlu tîm rhanbarthol. Hyd nes y bydd y tîm rhanbarthol yn ei le, bydd darpariaeth leol yn cael ei chynnal. Unwaith y bydd y tîm wedi'i sefydlu, yr unig ofyniad lleol fydd monitro ariannol drwy'r Tîm Cyllid Allanol.
- 4.12 Mae'r ail newid sy'n effeithio ar ofynion capasiti'r Tîm Datblygu Economaidd a Busnes yn ymwneud â'r modd y bydd y Cynlluniau Tref ac Ardal cael eu rheoli yn y dyfodol.
- 4.13 Canfu adolygiad o Gynlluniau Tref ac Ardal a gynhaliwyd yn 2014 bod y prosesau'n aneglur, yn rhy feichus ac yn cymryd gormod o amser, ac ar gyfer nifer o brosiectau unigol, roedd yn anodd canfod mantais neu aliniad clir (yn strategol neu'n lleol) gydag anghenion neu flaenoriaethau a gydnabuwyd. Yn ogystal, a mwy na thebyg yn sgil hynny, roedd gwariant yn ôl y gyllideb a ddyrannwyd yn araf.
- 4.14 O ganlyniad, gwnaed newidiadau i'r modd y caiff prosiectau eu cymeradwyo ar gyfer cyllid, ac mae ffocws cliriach ar anghenion, buddion a'r gallu i gyflawni yn rhan o'r penderfyniad hwnnw. Mae asesiadau ar y gallu i ddarparu bellach yn cynnwys Gwasanaethau yn benodol (nid oedd hyn bob amser yn wir yn y gorffennol) ac, o ganlyniad, ar ôl ei gymeradwyo, bydd prosiect yn dod yn gyfrifoldeb prif ffrwd i wasanaethau unigol, a adlewyrchir yn eu rhaglenni gwaith am y flwyddyn.
- 4.15 Crëwyd swydd benodol y Swyddog Prosiectau Cymunedol fel rhan o'r adolygiad o Ddatblygu Economaidd a Busnes. Lleolir y swydd hon yn Nhîm Cynllunio Strategol y gwasanaeth Gwella a Moderneiddio Busnes, lle caiff swyddogaethau Partneriaethau ac Ymgysylltu â'r Gymuned eu cefnogi ar hyn o bryd. Bydd y swydd yn rhoi gallu ychwanegol i'r tîm i gefnogi'r gwaith parhaus o gynnal y Cynlluniau Tref ac Ardal a chefnogi datblygiad prosiectau yn y gymuned, gan gynnwys dod o hyd i gyllid arall.
- 4.16 Mae'r gwaith o weithredu trefniadau'r Tîm diwygiedig ar y gweill ar hyn o bryd. Y bwriad yw bod y Tîm newydd ar waith o fis Mai 2015. Bydd yr

adolygiad o'r Tîm yn cyfrannu oddeutu £200,000 tuag at darged y Cyngor o doriadau yn y gyllideb yn 2016/17.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Cynhaliwyd yr adolygiad o swyddogaeth Datblygu Economaidd a Busnes y Cyngor yng nghyd-destun yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Y bwriad yw y bydd yn cyfrannu at darged y Cyngor o doriadau yn y gyllideb yn 2016/17. Cafodd ei gyflawni hefyd yng nghyd-destun y blaenoriaethau a osodwyd gan y Cyngor ar gyfer datblygu economaidd, twf ac adfywio lleol. Trwy ganolbwyntio'r Tîm ar y blaenoriaethau a nodwyd yn y Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol a fabwysiadwyd a thrwy sicrhau bod Gwasanaethau eraill y Cyngor hefyd yn gwneud cyfraniad priodol wrth gyflawni'r blaenoriaethau hynny, bydd yr adolygiad yn galluogi'r Cyngor i wneud cynnydd da ar ei flaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol a chyfrannu hefyd at ostyngiad mewn gwariant.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Amcangyfrifir y bydd adolygiad yn rhyddhau oddeutu £200k tuag at darged y Cyngor o doriadau yn y gyllideb ar gyfer 2016/17.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

Cynhaliwyd AEC pan fabwysiadwyd Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol y Cyngor ym mis Tachwedd 2013. Cwblhawyd AEC yn canolbwyntio'n benodol ar weithredu'r adolygiad o'r Tîm Datblygu Economaidd a Busnes ei hun a chafodd ei rannu â staff yn y Tîm a'u cynrychiolwyr yn yr Undebau Llafur . Cynlluniwyd gweithrediad y newidiadau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am y bwriad i leihau costau staffio yn y tîm Datblygu Economaidd a Busnes mewn gweithdy ar y gyllideb yn 2014. Rhoddwyd copi i'r Arweinwyr Grŵp o'r papur ymgynghori a rannwyd gyda'r staff. Cynhaliwyd trafodaethau yn y Bwrdd Rhaglen Uchelgais Economaidd a Chymunedol a'r Grŵp Cefnogwyr Tref ar oblygiadau'r trefniadau diwygiedig.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Bydd yr arbedion a nodwyd yn cyfrannu at broses barhaus y gyllideb.

10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Gydag unrhyw leihad mewn adnoddau a staffio mae perygl y bydd deilliannau'n gostwng. Dyluniwyd y trefniadau diwygiedig ar gyfer y Tîm Datblygu Economaidd a Busnes i ystyried blaenoriaethau Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol

y Cyngor a swyddogaethau busnes arferol y tîm datblygu economaidd effeithiol. Datblygwyd y blaenoriaethau sy'n cael eu harwain gan wasanaethau eraill mewn partneriaeth â'r gwasanaethau hynny ac wedi eu cynnwys yn eu rhaglenni gwaith. Drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau, caiff y risg nad ydym yn mynd i'r afael â chanlyniadau pwysig ei lleihau.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae awdurdod gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyflogedig a Phrif Swyddogion i weithredu newidiadau staffio yn eu gwasanaethau fel y cyfeirir atynt yn y Cynllun Dirprwyo ar gyfer Swyddogion yng Nghyfansoddiad y Cyngor

11.2 Mae Erthyglau 6.1 a 6.3.4(c) Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Archwilio i archwilio'r mater hwn.

Swyddog Cyswllt:

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol

Ffôn: 01824 706061


Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Prosiectau Blaenoriaeth – Y Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol

1. **Sir Ddinbych Ddigidol** - cefnogi yn y gwaith o gyflwyno band eang cyflym iawn / signal ffôn symudol ac annog busnesau i ddatblygu cyfleoedd e-fasnach (*dan arweiniad yr adran Datblygu Economaidd a Busnes*)
2. **Safleoedd Cyflogaeth Strategol** - gweithio i ddod â safleoedd cyflogaeth allweddol yn weithredol ar draws y sir. (*dan arweiniad y Gwasanaethau Eiddo*)
3. **Cyngor a Chymorth Busnes** - cyfeirio yn well at wasanaethau sy'n rhoi cyngor a chymorth, gwella rhwydweithio rhwng busnesau lleol â'i gilydd (*dan arweiniad yr adran Datblygu Economaidd a Busnes*)
4. **Gwell Busnes i Bawb** - rhaglen i wreiddio diwylliant 'busnes gyfeillgar' ar draws gwasanaethau'r Cyngor, gan ddechrau gyda'r Gwasanaethau Rheoleiddio. (*dan arweiniad yr adran Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd*)
5. **Caffael Cefnogol** - adolygu ein prosesau caffael gan ganolbwyntio ar ddatblygu cyflenwyr lleol a sicrhau buddion cymunedol (*dan arweiniad yr adran Gaffael*)
6. **Cynllunio Twf Twristiaeth** - datblygu Cynllun i fanteisio ar farchnadoedd twristiaeth allweddol i gynyddu nifer yr ymwelwyr dros nos a chynyddu nifer y gweithgareddau gwariant uchel (*dan arweiniad yr adran Datblygu Economaidd a Busnes*)
7. **Parc Busnes Llanelwy** - datblygu Cynllun i annog mewnfuddsoddi ac i ddenu swyddi gwerth uchel i Barc Busnes Llanelwy (*dan arweiniad yr adran Economaidd a Busnes*)
8. **Ailddatblygu Cyfleusterau Arfordirol** - cyflwyno cyfleusterau twristiaeth a hamdden newydd yn y Rhyl a Phrestatyn (*dan arweiniad yr adran Gyfathrebu, Marchnata a Hamdden*)
9. **Potensial Sectorau Twf Newydd** - gwerthuso sectorau twf cenedlaethol a manteisio arnynt yn lleol (*dan arweiniad yr adran Datblygu Economaidd a Busnes*)
10. **Cyfleoedd Twf Rhanbarthol** - sicrhau budd lleol o gyfleoedd twf rhanbarthol yng Ngogledd Cymru (*dan arweiniad yr adran Datblygu Economaidd a Busnes*)

11. **Cyngor, Cymorth a Llwybrau Gyrfaol** - sicrhau bod gan ein pobl ifanc sgiliau cyflogadwyedd rhagorol a sicrhau cysylltiadau gwell ar eu cyfer gyda'r byd gwaith (*dan arweiniad yr adran Addysg*)
12. **Uwch Sgiliau ar gyfer y Sectorau Twf** - canolbwyntio ar ddatblygu'r uwch sgiliau y mae eu hangen ar fusnesau'r sectorau twf, yn enwedig pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (*dan arweiniad yr adran Addysg*)
13. **Datblygu Sgiliau Menter ac Entrepreneuriaeth** - helpu i greu busnesau lleol newydd a chefnogi busnesau lleol presennol drwy ddatblygu talent leol (*dan arweiniad yr adran Addysg*)
14. **Twf Canol Trefi ac Arallgyfeirio** - mentrau i greu a chynnal canol trefi dichonadwy ar draws y sir (*dan arweiniad yr adran Datblygu Economaidd a Busnes*)
15. **Ymgyrch Farchnata i ddenu Busnesau i 'Leoli yn Sir Ddinbych'** - ymgyrch i hyrwyddo Sir Ddinbych fel lleoliad ar gyfer busnesau (*dan arweiniad yr adran Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden*)
16. **Rheoli Ymholiadau ynglŷn â Mewnfuddsoddi / Adleoli Busnesau** – gwella ein hymateb i ymholiadau ynglŷn â mewnfuddsoddi ac adleoli (*dan arweiniad yr adran Datblygu Economaidd a Busnes*)

Y Tîm Datblygu Economaidd a Busnes Diwygiedig



Tudalen 105

Yngnyd â: Swydd Swyddog Prosiectau Cymunedol yn y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad yn canolbwyntio ar gefnogi Prosiectau Cymunedol, Ymgysylltu â'r Gymuned a Chynlluniau Tref ac Ardal

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Archwilio Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod:	12 Mawrth 2015
Awdur yr Adroddiad:	Cydlynnydd Archwilio
Teitl:	Rhaglen Waith Archwilio

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn cyflwyno drafft rhaglen waith i'r dyfodol y Pwyllgor Archwilio Cymunedau i'r aelodau ei hystyried.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen waith i'r dyfodol, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar faterion perthnasol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd a chymeradwyo, adolygu neu addasu eu rhaglen waith i'r dyfodol fel yr ystyrir yn briodol.

4. Manylion am yr adroddiad.

- 4.1 Mae Erthygl 6 Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn nodi cylch gorchwyl, swyddogaethau ac aelodaeth pob Pwyllgor Archwilio, tra bo rheolau'r gweithdrefnau i bwyllgor archwilio wedi'u gosod yn Rhan 4 y Cyfansoddiad.
- 4.2 Mae'r Cyfansoddiad yn amodi bod yn rhaid i bwyllgorau archwilio'r Cyngor baratoi ac adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith i'r dyfodol. Drwy adolygu a blaenoriaethu materion mae modd i aelodau sicrhau fod y rhaglen waith yn cyflwyno rhaglen dan arweiniad yr aelodau.
- 4.3 Arfer sydd wedi'i fabwysiadu yn Sir Ddinbych ers nifer o flynyddoedd yw bod pwyllgorau archwilio'n cyfyngu ar nifer yr adroddiadau a ystyrir mewn unrhyw gyfarfod i uchafswm o bedwar, yn ogystal ag adroddiad rhaglen waith y Pwyllgor ei hun. Nod y dull hwn yw hwyluso cael trafodaeth fanwl ac effeithiol ar bob pwnc.
- 4.4 Yn y blynyddoedd diweddar mae Llywodraeth Cymru (LIC) a Swyddfa Archwilio Cymru wedi tynnu sylw at yr angen i gryfhau rôl archwilio ar draws llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys defnyddio archwilio fel modd o ymgysylltu â phreswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Wrth fynd ymlaen disgwylir i archwilio ymgysylltu'n well ac yn amlach â'r cyhoedd gyda golwg ar sicrhau penderfyniadau gwell a fydd yn y pen draw yn arwain at well canlyniadau i ddinasyddion. Yn y dyfodol, bydd Swyddfa Archwilio

Cymru yn mesur effeithiolrwydd archwilio wrth gyflawni'r disgwyliadau hyn.

4.5 Gan ystyried y weledigaeth genedlaethol ar gyfer archwilio ac ar yr un pryd ganolbwyntio ar flaenoriaethau lleol, mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio (GCIGA) wedi argymhell yn ddiweddar y dylai pwyllgorau archwilio'r Cyngor, wrth benderfynu ar eu rhaglenni gwaith, ganolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

- arbedion ar y gyllideb;
- cyflawni Amcanion y Cynllun Corfforaethol (gyda phwyslais arbennig ar y modd o'u cyflawni yn ystod cyfnod o galedi ariannol);
- unrhyw eitemau eraill a gytunwyd gan y Pwyllgor Archwilio (neu'r GCIGA) fel blaenoriaeth uchel (yn seiliedig ar y meini prawf profion PAPER - gweler ochr gefn y 'ffurflen gynnig aelodau' yn Atodiad 2) a;
- Materion brys, materion na ellir eu rhagweld neu materion â blaenoriaeth uchel

Ffurflenni Cynnig ar gyfer Archwilio

4.6 Fel y crybwyllwyd ym mharagraff 4.2 uchod, mae Cyfansoddiad y Cyngor yn gofyn i bwyllgorau archwilio baratoi ac adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith i'r dyfodol. Er mwyn cynorthwyo'r broses o flaenoriaethu adroddiadau, os yw'r swyddogion o'r farn fod pwnc yn haeddu'r amser i gael ei drafod ar raglen fusnes y Pwyllgor, mae'n rhaid iddynt wneud cais ffurfiol i'r Pwyllgor i ystyried derbyn adroddiad ar y pwnc hwnnw. Gwneir hyn trwy gyflwyno 'ffurflen gynnig' sy'n egluro pwrpas, pwysigrwydd a chanlyniadau posibl y pynciau a awgrymir. Does dim un ffurflen gynnig wedi dod i law oddi wrth swyddog i'w ystyried yn y cyfarfod cyfredol.

4.7 Er mwyn gwneud gwell defnydd o amser archwilio drwy ganolbwyntio adnoddau pwyllgorau i archwilio testunau'n fanwl, gan ychwanegu gwerth drwy'r broses o wneud penderfyniadau a sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer preswylwyr, penderfynodd y GCIGA yn ddiweddar y dylai'r aelodau, yn ogystal a swyddogion, gwblhau 'ffurflenni cynnig ar gyfer archwilio' yn amlinellu pam eu bod yn credu y byddai'r testun yn elwa o fewnbwn archwilio. Gellir gweld copi o 'ffurflen gynnig' yn Atodiad 2. Mae ochr gefn y ffurflen hon yn cynnwys siart lif sy'n rhestru'r cwestiynau y dylai aelodau eu hystyried wrth baratoi i gynnig eitem ar gyfer archwilio, ac y dylai pwyllgorau eu gofyn wrth benderfynu ar addasrwydd testun arfaethedig i'w gynnwys ar raglen gwaith i'r dyfodol archwilio. Os, ar ôl cwblhau'r broses hon, y penderfynir nad yw'r testun yn addas i'w archwilio'n ffurfiol gan bwyllgor archwilio, yna gellir ystyried dulliau eraill o rannu'r wybodaeth neu archwilio'r mater e.e. darparu 'adroddiad gwybodaeth', neu os yw'r mater yn un o natur leol gellir ei archwilio gan y Grŵp Ardal Aelodau (GAA) perthnasol. Yn y dyfodol ni fydd unrhyw eitemau'n cael eu cynnwys ar raglen gwaith i'r dyfodol heb i 'ffurflen gynnig ar gyfer

archwilio' gael ei chwblhau, ac i'r testun gael ei gymeradwyo i'w gynnwys ar y rhaglen gan un ai y Pwyllgor neu'r GCIGA. Bydd cymorth ar gael i gwblhau'r ffurflenni gan y Cydlynnydd Archwilio.

- 4.8 I alluogi dod ag adroddiad ar 'Gategoreiddio Iaith holl Ysgolion Sir Ddinbych' ymlaen a chynnwys adroddiad ar 'Dynnu Arwyddion heb Awdurdod oddi ar Dir Priffyrdd' roedd y Cadeirydd yn caniatáu gohirio'r adroddiad cynnydd ar y 'Strategaeth Safleoedd Carafanau' nes cyfarfod y Pwyllgor yn Ebrill 2015.

Rhaglen Waith i'r Dyfodol y Cabinet

- 4.9 Wrth benderfynu ar eu rhaglen waith i'r dyfodol mae'n bwysig fod pwyllgorau archwilio yn ystyried amserlen rhaglen waith y Cabinet. Ar gyfer y diben hwn, mae rhaglen waith y Cabinet wedi ei chynnwys yn Atodiad 3.

Datblygiad Penderfyniadau'r Pwyllgor

- 4.10 Yn Atodiad 4 mae tabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor ac yn cynghori aelodau am eu gweithrediad.

5. Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio

- 5.1 Dan drefniadau archwilio'r Cyngor mae Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio (GCIGA) yn gweithredu fel pwyllgor cydlynu. Cyfarfu'r Grŵp ar 19 Chwefror a phenodwyd cynrychiolwyr i wasanaethu ar y grŵp gorchwyl a gorffen traws-archwilio a fydd yn cael ei sefydlu i werthuso effaith y toriadau yn y gyllideb. Cynrychiolwyr y Pwyllgor hwn fydd y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts a Rhys Hughes, gyda'r Cynghorwyr Win Mullen-James a Joe Welch yn aelodau dirprwyol. Bydd aelodau dirprwyol yn cael eu galw i gymryd rhan yng ngwaith y Grŵp wrth iddo symud yn ei flaen.
- 5.2 Trafododd y GCIGA y trefniadau ar gyfer adrodd ar waith y pwyllgor archwilio hefyd ar gyfer 2014/15 i'r Cyngor Blynyddol ym mis Mai, ac fel rhan o'r broses honno mae wedi penderfynu cynnal ymarfer gwerthuso o waith y swyddogaeth archwilio. Bydd pob cynghorydd sir ac uwch reolwyr yn derbyn holiadur byr cyn bo hir yn gofyn iddynt werthuso archwilio o'u safbwynt hwy. Rhoddir crynodeb o'r canfyddiadau fel rhan o'r eitem ar yr Adroddiad Blynyddol yng nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai.
- 5.3 Eitem arall a drafodwyd mwen cryn fanylder yn y cyfarfod ar 19 Chwefror roedd Papur Gwyn diweddar Llywodraeth *Cymru Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol*. Dylai'r ddolen gyswllt isod gyfeirio aelodau i'r dudalen berthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru lle gellir gweld y Papur:

<http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/power-to-local-people/?skip=1&lang=cy>

Mae Pennod 8 y Papur Gwyn, 'Cryfhau Rôl Adolygu', yn manylu ar gynigion Llywodraeth Cymru o ran craffu. Bydd sylwadau'r Grŵp ar y cwestiynau ymgynghorol ar bennod 8 yn cael eu cynnwys yn ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad yn ei gyfanrwydd.

6. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd archwilio effeithiol yn gymorth i'r Cyngor gynnal y blaenoriaethau corfforaethol yn unol ag anghenion cymunedau a dymuniadau trigolion. Bydd datblygu ac adolygu'r rhaglen waith gydlynol yn barhaus yn cynorthwyo'r Cyngor i fonitro ac adolygu materion polisi.

7. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.

Ni chynhaliwyd Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb er diben yr adroddiad hwn gan nad yw ystyried rhaglen waith i'r dyfodol y Pwyllgor yn debygol o gael effaith andwyol neu annheg ar bobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi'u diogelu.

8. Faint fydd hyn yn costio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'n bosib y bydd yn rhaid i wasanaethau neilltuo amser swyddog i gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'r eitemau a nodwyd yn y rhaglen waith a chydag unrhyw gam gweithredu yn dilyn ystyried yr eitemau hynny.

9. Pa ymgynghori sydd wedi digwydd?

Does dim angen cynnal ymgynghoriad ar yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'r adroddiad ei hun a'r ystyriaeth a roir gan y Pwyllgor i'w raglen waith ar gyfer y dyfodol yn gyfystyr ag ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor o ran ei raglen waith.

10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oes risg wedi ei ganfod o ran y Pwyllgor yn ystyried ei raglen waith. Fodd bynnag, wrth adolygu ei raglen waith yn rheolaidd gall y Pwyllgor sicrhau bod meysydd sy'n peri pryder yn cael eu hystyried a'u harchwilio fel y maent yn dod i'r amlwg a bod argymhellion yn cael eu gwneud er mwyn mynd i'r afael â nhw.

11. Grym i wneud Penderfyniad

Yn unol ag Erthygl 6.3.7 Cyfansoddiad y Cyngor mae'n rhaid i bwyllgorau archwilio'r Cyngor baratoi rhaglen waith a'i hadolygu.

Swyddog Cyswllt: Cydlynnydd Archwilio
Rhif ffôn: (01824) 712554
E-bost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Communities Scrutiny Committee Forward Work Plan

Note: Items entered in italics have not been approved for submission by the Committee. Such reports are listed here for information, pending formal approval.

Meeting	Lead Member(s)	Item (description / title)	Purpose of report	Expected Outcomes	Author	Date Entered
23 April	Cllr. David Smith [not required]	1. Caravan Sites Strategy Progress	To report: (i) the progress attained with the development of the Strategy; (ii) the securing of a post to drive the initiative forward; and (iii) the progress made following the issue of Planning Contravention Notices (PCNs) and negotiations with caravan site owners/operators	Effective management of caravan sites will support the delivery of the Council's corporate priorities of developing the local economy, ensuring people have access to good quality housing and protecting vulnerable people and assisting them to live independently	Graham Boase/Paul Mead	December 2014 (rescheduled February 2015)
	Cllr. David Smith	2. Gritting Route Reductions	To consider proposals to reduce precautionary	(i) An assessment of the potential benefits, risks and impact of the proposed cuts to enable the development of effective management and communications	Steve Parker/Tim Towers	December 2014

Communities Scrutiny Committee Forward Work Plan

Meeting	Lead Member(s)	Item (description / title)		Purpose of report	Expected Outcomes	Author	Date Entered
				gritting on the highway by 10% in 2015/16	(ii) strategies for the associated changes; and identification of actions to mitigate detrimental effect on the delivery of the Corporate Plan		
28 May	Cllrs. David Smith and Julian Thompson-Hill	1.	Food Safety, Standards and Procurement	To detail the progress made with food hygiene and food standards compliance across the County, and with procurement and contract management of County food contracts	To mitigate the risk to the health of the County's resident from dangerous/contaminated food and to ensure that the products they buy are as labelled. In addition to safeguard that the Council's procurement and contract management procedures ensure that food served in Council establishments is safe and of high quality.	Graham Boase/Emlyn Jones/Stuart Andrews	June 2014
9 July							
10 September	Cllr. Bobby Feeley	1.	Supported Independent Living Service	To monitor the effectiveness of the new Supporting Independent Living Service	(i) an evaluation of the effectiveness of the new service in assisting and supporting vulnerable people to live independently in the community; and (ii) Examination of the proposed procurement model for purchasing future SIL services	Phil Gilroy/Katie Newe/John Sweeney	May 2014 (rescheduled January 2015)
	Cllr. David Smith	2.	Car Parking Charges Policy	To consider the findings of the study into varying car parking	The formulation of recommendations for submission to Cabinet with respect to the future car parking charges across the County with a view to developing the economy and	Steve Parker/Mike Jones	January 2015

Tudalen 114

Communities Scrutiny Committee Forward Work Plan

Meeting	Lead Member(s)	Item (description / title)		Purpose of report	Expected Outcomes	Author	Date Entered
				charges across the County	ensuring the long-term sustainability of the County's town centres		
5 November							
17 December							
4 February 2016							
24 March							
12 May							
30 June							
8 September							
27 Oct 2016	Cllr. Eryl Williams	1	Review of the Home to School Transport Policy [Education]	To consider the findings of a review of the impact of the implementation of the school transport policy	An assessment of the impact of the policy's implementation will assist the Authority to determine if learners' needs are being appropriately met and identify any anomalies or areas of concern which require addressing	Jackie Walley	Cabinet September 2014
15 December							

Tudalen 115

Communities Scrutiny Committee Forward Work Plan

Future Issues

Item (description / title)	Purpose of report	Expected Outcomes	Author	Date Entered
Community Infrastructure Levy (CIL)	To outline the proposals for implementing the CIL in Denbighshire	The development of an appropriate and effective CIL scheme for the County	Graham Boase/Angela Loftus	February 2013

For future years

Information/Consultation Reports

Information / Consultation	Item (description / title)	Purpose of report	Author	Date Entered
Quarterly Information (Sept/Dec/Mar/June)	Rhyl Going Forward	To brief the Committee on the progress in delivering the Programme and its associated workstreams and projects, and to highlight to members areas of concern or slippages	Mark Dixon	May 2014
Information Report (June 2015)	Reablement Service	To detail to the Committee the: (i) effectiveness of the Reablement Service in delivering the Council's corporate priority of protecting vulnerable people and helping them to live as independently as possible; (ii) efficiencies realised following the introduction of the Service. The report to include all (positive and negative) feedback from service users	Phil Gilroy/Anne Hughes-Jones	June 2014

Note for officers – Committee Report Deadlines

Meeting	Deadline	Meeting	Deadline	Meeting	Deadline

Communities Scrutiny Committee Forward Work Plan

23 April	9 April	28 May	14 May	9 July	25 June
----------	----------------	--------	---------------	--------	----------------

Communities Scrutiny Work Programme.doc

02/03/15 RhE

Tudalen 117

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag

Ffurflen Gynnig ar gyfer Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Archwilio	
ENW'R PWYLLGOR ARCHWILIO	
AMSERLEN I'W HYSTYRIED	
TESTUN	
Beth sydd angen ei graffu arno (a pham)?	
Ydi'r mater yn un o bwys i drigolion/busnesau lleol?	YDI/NAC YDI
Ydi craffu yn gallu dylanwadu ar bethau a'u newid? (Os 'ydi' nodwch sut rydych chi'n meddwl y gall craffu ddylanwadu neu newid pethau)	YDI/NAC YDI
Ydi'r mater yn ymwneud â gwasanaeth neu faes sy'n tanberfformio?	YDI/NAC YDI
Ydi'r mater yn effeithio ar nifer fawr o drigolion neu ardal fawr o'r Sir? (Os 'ydi', rhowch syniad o faint y grŵp neu'r ardal yr effeithir arni)	YDI/NAC YDI
Ydi'r mater yn gysylltiedig â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor? (Os 'ydi' nodwch pa flaenoriaethau)	YDI/NAC YDI
Hyd y gwyddoch, oes yna rywun arall yn edrych ar y mater hwn? (Os 'oes', nodwch pwy sy'n edrych arno)	OES/NAC OES
Os derbynnir y testun ar gyfer craffu, pwy fyddai arnoch chi eisiau eu gwahodd e.e. Aelod Arweiniol, swyddogion, arbenigwyr allanol, defnyddwyr y gwasanaeth?	
Enw'r Cynghorydd/Aelod Cyfetholedig	
Dyddiad	

Ystyried addasrwydd pwnc ar gyfer craffu


Ffurflen Gynnig / Cais a dderbyniwyd

(dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r rhesymau dros wneud cais)



Ydi o'n bodloni'r gofynion canlynol?

- **Diddordeb Cyhoeddus** – ydi'r mater o bwys i drigolion?
- **Effaith**– fedr craffu yn gael effaith ar bethau a'u newid?
- **Perfformiad** – ydi o'n wasanaeth neu faes sy'n tanberfformio?
- **Graddfa** – ydi o'n effeithio ar nifer o drigolion neu ardal ddaearyddol fawr?
- **Ailadrodd** – ydi'r mater yn destun craffu/ymchwiliad gan berson neu gorff arall?



Dim gweithredu pellach gan y Pwyllgor Archwilio. Gellir ei gyfeirio at gorff arall neu ofyn am adroddiad er gwybodaeth.

- Penderfynu ar y canlyniadau a ddymunir
- Penderfynu ar gwmpas a swmp y gwaith craffu sydd ei angen a'r dull mwyaf priodol o graffu (h.y. adroddiad pwyllgor, ymchwiliad grŵp tasg a gorffen neu aelod cyswllt ac ati)
- Os penderfynir sefydlu grŵp tasg a gorffen, dylid penderfynu ar amserlen yr ymchwiliad, pwy fydd yn rhan o'r ymchwiliad, beth yw'r gofynion ymchwilio, a oes angen cyngor arbenigol a thystion, a beth yw'r trefniadau adrodd ac ati.

Cabinet Forward Work Plan

Appendix 3

Tudalen 121

Meeting	Item (description / title)		Purpose of report	Cabinet Decision required (yes/no)	Author – Lead member and contact officer
24 March	1	Finance Report	To update Cabinet on the current financial position of the Council	Tbc	Councillor Julian Thompson-Hill / Paul McGrady
	2	Affordable Housing Task and Finish Group	To consider the findings of the Affordable Housing Task and Finish Group	Tbc	Cllr David Smith / Graham Boase
	3	Business Rates Write Offs	To seek approval for uncollectible Business Rates Debts to be written off	Yes	Cllr Julian Thompson-Hill / Rod Urquhart
	4	HB/CTRS Telephone Recording Policy	Tbc	Tbc	Cllr Julian Thompson_hill / Rod Urquhart
	5	Council Tax/Business Rates Telephone Recording Policy	Tbc	Tbc	Cllr Julian Thompson_hill / Rod Urquhart
	6	Discretionary Housing Payments (DHP) Policy 2015/16 onwards	Tbc	Tbc	Cllr Julian Thompson_hill / Rod Urquhart
	7	Ysgol Esgob Morgan - School Organisation Proposal	To consider any objections received following the publication of the statutory notice and to consider	Yes	Cllr Eryl Williams / Jackie Walley

Cabinet Forward Work Plan

Tudalen 122

Meeting	Item (description / title)		Purpose of report	Cabinet Decision required (yes/no)	Author – Lead member and contact officer
			whether to approve the implementation of the proposal.		
	8	Ysgol Glan Clwyd - 21st Century Schools Project	To support the Final Business Case for the Ysgol Glan Clwyd extension and refurbishment project as part of the 21st Century Schools and to consider recommending its approval to Council	Yes	Councillor Eryl Williams / Jackie Walley
	9	GwE Governance Arrangements	To consider a report recommending changes to the membership of the GwE Joint Committee in response to the adoption of the National Model for Regional Joint Working	Yes	Cllr Eryl Williams / Karen Evans
	10	Long Term Strategy for the Agricultural Estate	To seek Cabinet's approval to adopting a new long term strategy for the Agricultural Estate	Yes	Cllr Julian Thompson-Hill / David Lorey / Gerald Thomas / Mair Jones
	11	Ty Nant, 6-8 Nant Hall Road, Former Library, WC Block and car park at Nant Hall Road,	To consider declaring land and buildings as surplus to requirements and for	Yes	Cllr Julian Thompson-Hill / David Mathews

Cabinet Forward Work Plan

Meeting		Item (description / title)	Purpose of report	Cabinet Decision required (yes/no)	Author – Lead member and contact officer
		Prestatyn	disposal		
	12	Items from Scrutiny Committees	To consider any issues raised by Scrutiny for Cabinet's attention	Tbc	Scrutiny Coordinator
28 April	1	Finance Report	To update Cabinet on the current financial position of the Council	Tbc	Councillor Julian Thompson-Hill / Paul McGrady
	2	Items from Scrutiny Committees	To consider any issues raised by Scrutiny for Cabinet's attention	Tbc	Scrutiny Coordinator
26 May	1	Finance Report	To update Cabinet on the current financial position of the Council	Tbc	Councillor Julian Thompson-Hill / Paul McGrady
	2	Ruthin Primary Proposals	To consider the formal consultation reports following the publication of proposals for the amalgamation of Ysgol Llanfair DC and Ysgol Pentrecelyn and the closure of Ysgol Rhewl and to consider whether to publish the relevant statutory notices.	Yes	Councillor Eryl Williams / Jackie Walley
	3	Items from Scrutiny Committees	To consider any issues	Tbc	Scrutiny Coordinator

Cabinet Forward Work Plan

Tudalen 124

Meeting	Item (description / title)		Purpose of report	Cabinet Decision required (yes/no)	Author – Lead member and contact officer
			raised by Scrutiny for Cabinet's attention		
June	1	Finance Report	To update Cabinet on the current financial position of the Council	Tbc	Councillor Julian Thompson-Hill / Paul McGrady
	2	Items from Scrutiny Committees	To consider any issues raised by Scrutiny for Cabinet's attention	Tbc	Scrutiny Coordinator
July	1	Finance Report	To update Cabinet on the current financial position of the Council	Tbc	Councillor Julian Thompson-Hill / Paul McGrady
	2	The Future of In-house Care Services	To consider the results of the consultation with existing users of in-house care services	Yes	Councillor Bobby Feeley / Phil Gilroy
	3	Items from Scrutiny Committees	To consider any issues raised by Scrutiny for Cabinet's attention	Tbc	Scrutiny Coordinator

Note for officers – Cabinet Report Deadlines

<i>Meeting</i>	<i>Deadline</i>	<i>Meeting</i>	<i>Deadline</i>	<i>Meeting</i>	<i>Deadline</i>
----------------	-----------------	----------------	-----------------	----------------	-----------------

Cabinet Forward Work Plan

<i>March</i>	10 March	<i>April</i>	14 April	<i>May</i>	11 May

Updated 27/02/15 - KEJ

Cabinet Forward Work Programme.doc

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag

Progress with Committee Resolutions

Date of Meeting	Item number and title	Resolution	Progress
29 th January 2015	5. Findings of the Traffic and Parking Review	<p>RESOLVED that the Committee –</p> <p>(a) receive the report and note the contents of the Review;</p> <p>(b) support in principle the development of the series of recommended actions in the Review as summarised in Appendix C to the report, including the calculation of indicative costs to each of the actions, and the discussion and agreement of those actions with each of the respective Member Area Groups;</p> <p>(c) support the undertaking of a further piece of work to examine in greater detail the potential of varying parking charges between towns according to supply and demand as identified by the Traffic and Parking Review, and</p> <p>(d) receive a further report on the conclusions of the varying parking charges review when available and prior to its submission to Cabinet.</p>	Officers advised of the Committee's recommendations and the report in (d) has been scheduled into the Committee's forward work programme for its meeting on 10 September 2015
	6. Introduction of	RESOLVED that subject to the above observations –	

	<p>Charges for Green Waste Collections</p>	<p>(a) <i>the report be received, and</i></p> <p>(b) <i>the Scrutiny Task and Finish Group (established to evaluate the impact of the budget cuts) examine and monitor the impact of the introduction of the charges for green waste collections as part of its work on the Cutting Our Cloth proposals.</i></p>	<p>The terms of reference for the 'Cutting Our Cloth' task and finish group included work relating to the impact of the green waste collection charges (see paragraph 5.1 of the attached report)</p>
	<p>7. Scrutiny Work Programme</p>	<p>RESOLVED that –</p> <p>(a) <i>subject to the above, the forward work programme as detailed in Appendix 1 to the report be approved;</i></p> <p>(b) <i>Councillors Huw Hilditch-Roberts and Rhys Hughes expressed an interest in being appointed the committee's representatives on the Scrutiny Task and Finish Group to evaluate the impact of the budget cuts with Councillors Win Mullen-James and Joe Welch expressing an interest in being appointed substitute representatives, and</i></p> <p>(c) <i>the following committee representatives and substitute representatives be appointed to the Service Challenge Groups –</i></p> <p><i>Highways – Councillors Rhys Hughes and Cefyn Williams (substitute)</i></p>	<p>Relevant officers and members notified of the appointments</p>

		<p><i>Planning – Councillor Win Mullen-James and Cefyn Williams (substitute)</i></p> <p><i>Finance & Assets – Councillor Peter Evans (to replace Councillor Rhys Hughes, to take effect from the next round of Service Challenges).</i></p>	
--	--	---	--

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag